

## Dyfarniad Pearson BTEC Lefel 1/Lefel 2 Cyntaf

# Celf a Dylunio

## Uned 2: Project Creadigol mewn Celf a Dylunio

**2017**

**Amser: Datblygu portffolio o astudiaethau ategol: 20 awr**

**Deilliant (deilliannau) terfynol: 10 awr**

Cyfeirnod y Papur

**21913G**

**Nid oes angen unrhyw ddeunyddiau eraill arnoch.**

### Cyfarwyddiadau i ganolfannau

- Mae'r papur hwn ar gael ar wefan Pearson [www.BTEC.co.uk/2012](http://www.BTEC.co.uk/2012) o Ionawr 2017.
- Mae rhyddid i ganolfannau ddyfeisio eu cyfnod astudio paratoadol eu hunain (20 awr dros nifer o wythnosau) cyn y cyfnod 10 awr o weithio o dan amodau rheoledig i gynhyrchu'r deilliant terfynol.
- Rydym yn argymhell yn gryf bod y papur cyfan hwn yn cael ei roi i ddysgwyr.

*Trowch y dudalen ►*

W55842A

©2017 Pearson Education Ltd.

1/1/



Pearson

## Gwybodaeth i ddysgwyr

### Dylech:

- darllen y wybodaeth hon cyn dechrau ar y briff ar gyfer eich llwybr dewisol
- cyfeirio at y cyfarwyddiadau hyn wrth i chi gwblhau'r gwaith ar gyfer yr uned hon
- dewis briff o'ch llwybr dewisol.

### Datblygu portffolio o astudiaethau cefnogol

Darllenwch y briff a meddylwch am y broblem greadigol mae angen ei datrys. Mae 20 awr o amser dysgu dan arweiniad gennych chi i baratoi ar gyfer eich deiliant terfynol. Gall yr 20 awr hyn gael eu hymestyn dros nifer o wythnosau neu fisoedd.

Ymchwiliwch i:

- beth mae'r cleient yn disgwyl i chi ei wneud ar gyfer y briff
- amrywiaeth o ffynonellau cynradd ac eilaidd sy'n briodol i'r llwybr rydych chi wedi ei ddewis
- gwaith artistiaid neu ddylunwyr sy'n perthyn i'ch syniadau eich hun mewn ymateb i'r thema. Mae rhestr o adnoddau awgrymedig i'w chael yn yr adran Adnoddau
- materion byd-eang, amgylcheddol, ecolegol, diwylliannol a chymdeithasol sy'n gysylltiedig â'r thema.

Datblygwch:

- syniadau o'ch gwaith ymchwil
- cynllun gwaith ar gyfer y 10 awr terfynol.

Adolygwch:

- cynnydd, cynlluniau, syniadau, prosesau gwaith ac unrhyw newidiadau wrth i chi ddatblygu eich gwaith.

Gwerthuswch:

- y syniadau, y defnyddiau, y prosesau a'r technegau rydych chi wedi eu dewis mewn perthynas â'r briff.

**Bydd eich athro/athrawes yn gallu eich helpu wrth i chi baratoi eich ymateb personol i'r briff. Mae'n rhaid i chi siarad â'ch athro/athrawes am y defnyddiau a'r prosesau rydych chi'n bwriadu eu defnyddio yn ystod y 10 awr terfynol.**

## Deilliant terfynol

- Mae gennych chi 10 awr i gynhyrchu eich deilliant terfynol, gan ddefnyddio'r elfennau gweledol, y defnyddiau, y technegau a'r prosesau rydych chi wedi eu dewis.
- Byddwch chi'n gweithio o dan amodau arholiad dan oruchwyliaeth, fel arfer yn eich ystafell celf a dylunio.
- Dylech gyfeirio at eich gwaith paratoi a'ch astudiaethau cefnogol yn ystod y 10 awr terfynol.
- Yn ystod y 10 awr terfynol, ni fydd y goruchwylwr yn gallu siarad â chi am eich syniadau creadigol, dim ond rhoi cyngor a chefnogaeth dechnegol i chi yn gysylltiedig â defnyddiau, technegau a phrosesau, e.e. paratoi darnau ceramig i'w tanio, defnyddio cemegau yn yr ystafell dywyll, defnyddio peiriant gwnïo a pheiriant gorffennu.

Ar y tudalennau sy'n dilyn, mae themâu a briffiau ynghyd â disgwyliadau'r cleient. Rhaid i chi ddewis **UN** o'r rhain er mwyn cwblhau eich gwaith ar gyfer yr uned hon.

## Llwybrau

### Crefftau Dylunio



Y thema ar gyfer Crefftau Dylunio yw **'Op & Pop'**.

Dau fudiad celfyddydol mawr o'r 1960au a'r 1970au oedd Celfyddyd Bop (*Pop Art*) a Chelfyddyd Op (*Op Art*). Roedd Celfyddyd Bop yn adlewyrchu nodweddion masnachol ac uniongyrchol cymdeithas ifanc (*youthful*) a diwylliant poblogaidd. Roedd artistiaid yn defnyddio delweddau o fywyd modern, sêr ffilmiau, cerddoriaeth, pecynnu a cheir, yn aml mewn lliwiau llachar ac yn defnyddio delweddau ffotograffig yn eu gwaith. Mae gweithiau celfyddyd Op yn haniaethol (*abstract*), gyda llawer o'r darnau mwy enwog wedi eu creu mewn du a gwyn. Mae'r gweithiau'n defnyddio elfennau gweledol dynamig, streipiau, smotiau, lliw a phatrwm i greu effeithiau sy'n pelydru (*shimmering*), ôl-ddelweddau a rhithiau optegol, yn aml yn rhoi'r argraff o symud, chwyddo neu gamdroi (*warping*). Roedd y ddau fath o gelfyddyd yn ddylanwadol iawn ac yn pylu'r ffin rhwng celf a dylunio. Daeth artistiaid fel Andy Warhol a Bridget Riley yn enwau cyfarwydd.

### Beth bydd angen i chi ei gynhyrchu

Mae oriel leol yn cynnal arddangosfa o Gelfyddyd Op a Chelfyddyd Bop. Yr oriel leol fydd y cleient, ac mae'n gwahodd dylunwyr i ymchwilio i Gelfyddyd Op a Chelfyddyd Bop, a datblygu eitemau i'w gwerthu yn siop rhoddion yr oriel. Dylai'r eitemau hyn adlewyrchu elfennau gweledol allweddol un o'r mudiadau celfyddydol hyn, neu'r ddau ohonynt, ond gyda thro cyfoes (*contemporary twist*) ychwanegol. Rhaid i chi ymchwilio i'r cynhyrchion a'r rhoddion sydd eisoes yn cael eu gwerthu yn siopau rhoddion yr oriel i helpu i lywio eich gwaith.

Dylech ddatblygu syniadau a dyluniadau mewn ymateb i friff y cleient ac yn seiliedig ar eich ymchwil cynradd ac eilaidd i thema **'Op & Pop'**. Dylech gyfeirio at ddefnyddiau, technegau a phrosesau arbenigol ac elfennau fel: lliw, llinell, gwead (*texture*), addurn, patrwm, ffurf a swyddogaeth (*function*).

Mae'r cleient eisiau i chi ddylunio a datblygu syniadau ar gyfer **un** o'r canlynol:

1. Set o emwaith neu ddarn unigol o addurn personol.
2. Darn 3D mewn unrhyw gyfrwng addas, er enghraifft darn ceramig, tegau neu gêm.
3. Eitem sy'n gallu cael ei gwisgo, er enghraifft esgidiau, eitem neu gyfwisg (*accessory*) wedi'i phrintio, tei, sgarff, bag.

### **Dylai eich ymchwil ganolbwyntio ar:**


- disgwyliadau'r cleient
- ffynonellau cynradd ac eilaidd mewn ymateb i thema '**Op & Pop**'
- artistiaid, dylunwyr a gwneuthurwyr sydd wedi defnyddio '**Op & Pop**' neu themâu tebyg fel eu hysbrydoliaeth a'u hysgogiad.

### **Disgwyliadau'r cleient**

Mae'n rhaid i'r gwaith rydych chi'n ei gynhyrchu ateb disgwyliadau'r cleient. Bydd y cleient eisiau gwybod sut rydych chi wedi mynd i'r afael â'r cwestiynau canlynol.

- Beth yw eich ymateb i'r thema ac i gyfyngiadau'r briff?
- Sut rydych chi wedi defnyddio eich ymchwil cynradd ac eilaidd i ddatblygu syniadau?
- Sut gwnaethoch chi ddefnyddio iaith weledol i ddatblygu eich syniadau a'ch deilliannau?
- Sut mae eich dyluniadau yn targedu'r gynulleidfa fwriadedig?
- A yw eich dyluniadau yn addas i'w diben?
- Pa ddefnyddiau, technegau a phrosesau rydych chi wedi eu dewis a'u defnyddio?
- Sut byddwch chi'n cyflwyno eich gwaith i'r cleient?

## Ffasiwn a Thecstilau



Y thema ar gyfer Ffasiwn a Thecstilau yw **'Op & Pop'**.

Dau fudiad celfyddydol mawr o'r 1960au a'r 1970au oedd Celfyddyd Bop (*Pop Art*) a Chelfyddyd Op (*Op Art*). Roedd Celfyddyd Bop yn adlewyrchu nodweddion masnachol ac uniongyrchol cymdeithas ifanc (*youthful*) a diwylliant poblogaidd. Roedd artistiaid yn defnyddio delweddau o fywyd modern, sêr ffilmiau, cerddoriaeth, pecynnu a cheir, yn aml mewn lliwiau llachar ac yn defnyddio delweddau ffotograffig yn eu gwaith. Mae gweithiau celfyddyd Op yn haniaethol (*abstract*), gyda llawer o'r darnau mwy enwog wedi eu creu mewn du a gwyn. Mae'r gweithiau'n defnyddio elfennau gweledol dynamig, streipiau, smotiau, lliw a phatrwm i greu effeithiau sy'n pelydru (*shimmering*), ôl-ddelweddau a rhithiau optegol, yn aml yn rhoi'r argraff o symud, chwyddo neu gamdroi (*warping*). Roedd y ddau fath o gelfyddyd yn ddylanwadol iawn ac yn pylu'r ffin rhwng celf a dylunio. Daeth artistiaid fel Andy Warhol a Bridget Riley yn enwau cyfarwydd. Roedd dylunwyr ffasiwn fel Mary Quant a Barbara Brown yn defnyddio motiffau Op & Pop yn eu gwaith.

### Beth bydd angen i chi ei gynhyrchu

Mae adwerthwyr a dylunwyr yn aml yn cymryd dylanwadau dylunio o'r celfyddydau gweledol. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae arddangosfeydd mawr wedi cael eu marchnata'n helaeth, maen nhw yn y papurau newydd, ar y teledu ac wedi datblygu'n ysbrydoliaeth ar gyfer dylunio. Mae adwerthwr mawr ar y stryd fawr eisiau gwneud y mwyaf o hyn ac, fel y cleient, mae'n gwahodd dylunwyr i ymchwilio i'r thema a datblygu syniadau, gan ychwanegu eu tro cyfoes (*contemporary twist*) eu hunain, ac yna cyflwyno samplau a chynigion iddo.

Datblygwch syniadau a dyluniadau mewn ymateb i friff y cleient a'ch ymchwil cynradd ac eilaidd yn seiliedig ar y thema. Ystyriwch ddyluniadau a delweddau Celfyddyd Op a/neu Gelfyddyd Bop. Chwiliwch am enghreifftiau o'ch cwmpas. Dylech gyfeirio at ddefnyddiau, technegau a phrosesau arbenigol ac elfennau fel: lliw, llinell, gwedd (*texture*), addurn, patrwm, ffurf a swyddogaeth (*function*).

Mae'r cleient eisiau i chi ddylunio a datblygu syniadau ar gyfer **un** o'r canlynol:

1. Casgliad o ddillad haf yn seiliedig ar naill ai Celfyddyd Op neu Gelfyddyd Bop, i gwsmeriaid gwrywaidd neu fenywaidd 16 i 18 oed. Mae'r cleient yn disgwyl bwrdd hwyliau, darluniadau o'r blaen a'r cefn a darn sampl, sy'n gallu bod yn chwarter maint neu yn faint llawn.
2. Darn tecstil 2D neu 3D, i'w arddangos yn ffenestr y siop neu yn adran ffasiwn y siop. Mae'r cleient eisiau gweld sut byddai hwn yn edrych pan fyddai yn ei le.
3. Addasu dilledyn presennol gan ddefnyddio motiffau Celfyddyd Op neu Gelfyddyd Bop. Mae'r cleient eisiau i chi ddefnyddio nifer o wahanol brosesau ac yna esbonio eich dewis o dechneg, fel appliqué, brodwaith, print neu ddulliau eraill.

### **Dylai eich ymchwil ganolbwyntio ar:**

- disgwyliadau'r cleient
- ffynonellau cynradd ac eilaidd mewn ymateb i thema '**Op & Pop**'
- artistiaid, dylunwyr a gwneuthurwyr sydd wedi defnyddio '**Op & Pop**' neu themâu tebyg fel eu hysbrydoliaeth a'u hysgogiad.

### **Disgwyliadau'r cleient**

Mae'n rhaid i'r gwaith rydych chi'n ei gynhyrchu ateb disgwyliadau'r cleient. Bydd y cleient eisiau gwybod sut rydych chi wedi mynd i'r afael â'r cwestiynau canlynol.

- Beth yw eich ymateb i'r thema ac i gyfyngiadau'r briff?
- Sut rydych chi wedi defnyddio eich ymchwil cynradd ac eilaidd i ddatblygu syniadau?
- Sut gwnaethoch chi ddefnyddio iaith weledol i ddatblygu eich syniadau a'ch deilliannau?
- Sut mae eich dyluniadau yn targedu'r gynulleidfa fwriadedig?
- A yw eich dyluniadau yn addas i'w diben?
- Pa ddefnyddiau, technegau a phrosesau rydych chi wedi eu dewis a'u defnyddio?
- Sut byddwch chi'n cyflwyno eich gwaith i'r cleient?



## Ffotograffiaeth



Y thema ar gyfer Ffotograffiaeth yw **'Perfformiad'**.

Mae traddodiad cryf i artistiaid, ffotograffwyr a gwneuthurwyr ffilmiau seilio gwaith ar y celfyddydau perfformio. Eu nod yw dal awryglch ymarfer, paratoi a pherfformio. Mae llawer o wneuthurwyr ffilmiau, fideograffwyr a ffotograffwyr yn archwilio'r offer technegol, yr awryglch, y cyffro a'r cymeriadau ym myd perfformio. Mae'r rhain yn cynnwys Annie Leibovitz, Jim Marshall, Angus McBean, Ami Barwell, Chris Cunningham a Michel Gondry.

### Beth bydd angen i chi ei gynhyrchu

Canolfan celfyddydau perfformio yw'r cleient. Mae'r ganolfan yn gwahodd ffotograffwyr i weithio gyda pherfformwyr go iawn, neu i ddefnyddio pobl sy'n esgus bod yn berfformwyr, neu i archwilio'r amgylchedd cefn llwyfan (*backstage*) a blaen y tŷ (*front-of-house*), celfi (*props*), golau a golygfeydd. Mae'r cleient eisiau i ffotograffwyr ddangos y perfformiad, neu rai o'r prosesau a'r camau sy'n arwain at y perfformiad.

Dylech ddatblygu syniadau a dyluniadau mewn ymateb i friff y cleient ac yn seiliedig ar eich ymchwil cynradd ac eilaidd ar thema **'Perfformiad'**. Dylech gyfeirio at ddefnyddiau, technegau a phrosesau arbenigol ac elfennau fel: cyfansoddiad, golau, dilyniant, cyferbyniad, lliw, llinell, gwead (*texture*), addurn, patrwm, ffurf a swyddogaeth (*function*).

Mae'r cleient eisiau i chi seilio eich gwaith ar **actio** neu **ddawns** neu **gerddoriaeth**, i ddylunio a datblygu syniadau ar gyfer **un** o'r canlynol:

1. Cyfres o 12 delwedd, wedi eu cyflwyno naill ai ar ffurf ddigidol neu ffurf brint, fydd yn cael eu harddangos yng nghyntedd yr adeilad. Rhaid i chi ddangos sut byddai'r rhain yn edrych pan fyddant yn eu lle.
2. Fideo neu ffilm fer, a fydd yn cael ei dangos yn ardaloedd cyhoeddus yr adeilad, i adlewyrchu gweithgareddau yn y ganolfan. Mae'r cleient eisiau gweld bwrdd stori a detholiad byr. Rhaid i chi ddangos sut byddai hyn yn edrych pan fyddai yn ei le.
3. Tudalennau enghreifftiol, gan ddefnyddio eich delweddau eich hun, ar gyfer gwefan neu gyflwyniad aml-gyfrwng, a fydd yn rhan o ddeunydd marchnata a hyrwyddo'r ganolfan.



### **Dylai eich ymchwil ganolbwyntio ar:**



- disgwyliadau'r cleient
- ffynonellau cynradd ac eilaidd mewn ymateb i thema '**Perfformiad**'
- artistiaid, dylunwyr a ffotograffwyr sydd wedi defnyddio '**Perfformiad**' neu themâu tebyg fel eu hysbrydoliaeth a'u hysgogiad.

### **Disgwyliadau'r cleient**

Mae'n rhaid i'r gwaith rydych chi'n ei gynhyrchu ateb disgwyliadau'r cleient. Bydd y cleient eisiau gwybod sut rydych chi wedi mynd i'r afael â'r cwestiynau canlynol.

- Beth yw eich ymateb i'r thema ac i gyfyngiadau'r briff?
- Sut rydych chi wedi defnyddio eich ymchwil cynradd ac eilaidd i ddatblygu syniadau?
- Sut gwnaethoch chi ddefnyddio iaith weledol i ddatblygu eich syniadau a'ch deilliannau?
- Sut mae eich dyluniadau yn targedu'r gynulleidfa fwriadedig?
- A yw eich dyluniadau yn addas i'w diben?
- Pa ddefnyddiau, technegau a phrosesau rydych chi wedi eu dewis a'u defnyddio?
- Sut byddwch chi'n cyflwyno eich gwaith i'r cleient?

## Dylunio Cynnyrch



Y thema ar gyfer Dylunio Cynnyrch yw **'Arddull Glasurol'**.

Mae dylunwyr a gwneuthurwyr yn aml wedi cymryd eu hysbrydoliaeth o wareiddiadau (*civilisations*) Rhufeinig, Groegaidd ac Eifftaidd. Roedd neuaddau tref, eglwysi ac amgueddfeydd o oes Fictoria yn aml yn defnyddio elfennau clasurol. Yn aml, roedd nodweddion Art Deco/Eifftaidd gan hen sinemâu o'r 1930au ymlaen, ac mae rhai papurau wal, ffabrigau a theils cyfoes yn defnyddio motiffau clasurol.

### Beth bydd angen i chi ei gynhyrchu

Mae cwmni catalogau eisiau canolbwyntio ar **'Arddull Glasurol'** ar gyfer ei lyfryn haf (*summer brochure*). Mae'r cwmni eisiau defnyddio motiffau dylunio, arddull a golwg gwareiddiad glasurol, ond gyda thro cyfoes. Rydych wedi cael gwahoddiad i ymchwilio i'r thema, gan ddefnyddio ffynonellau cynradd ac eilaidd, ac yna datblygu cynigion 2D a 3D ar gyfer eitemau i'w hychwanegu at ddewis (*range*) y cwmni. Dylech chwilio am enghreifftiau lleol i helpu i ddylanwadu ar eich meddwl.

Dylech ddatblygu syniadau a dyluniadau mewn ymateb i friff y cleient gan ddefnyddio eich ymchwil cynradd ac eilaidd ar thema **'Arddull Glasurol'**. Dylech gyfeirio at ddefnyddiau, technegau a phrosesau arbenigol ac elfennau fel: ffurf a swyddogaeth (*function*), lliw, llinell, gwead (*texture*), addurn a phatrwm.

Mae'r cleient eisiau i chi ddylunio a datblygu syniadau ar gyfer **un** o'r canlynol:

1. Darn bach o ddodrefn/celfi, fel bwrdd coffi, rhesel cylchgronau, neu silff lyfrau fach, gan ddangos syniadau, lluniadau a darluniadau'n dangos sut byddai'r darn yn edrych wrth gael ei ddefnyddio, ynghyd â model wrth raddfa neu frasfodel gyda manylion adeiladu.
2. Set gydweidd (*matching set*) o osodion golau, gan gynnwys lamp â chysgod lamp, golau i'r wal a golau i'w ddefnyddio mewn gardd. Rhaid i chi ddangos sut mae syniadau wedi cael eu datblygu, gyda lluniadau a darluniadau a phrototeip neu fodel wrth raddfa.
3. Nodwedd ddŵr i'r ardd, yn dangos syniadau, lluniadau a darluniadau o sut byddai'n edrych wrth gael ei defnyddio, ynghyd â model wrth raddfa neu frasfodel a manylion adeiladu. Byddai'n dda cael prototeip sy'n gweithio, os yw'r adnoddau ar gael.

### **Dylai eich ymchwil ganolbwyntio ar:**

- disgwyliadau'r cleient
- ffynonellau cynradd ac eilaidd mewn ymateb i thema '**Arddull Glasurol**'
- artistiaid, dylunwyr a gwneuthurwyr sydd wedi defnyddio '**Arddull Glasurol**' neu themâu tebyg fel eu hysbrydoliaeth a'u hysgogiad.

### **Disgwyliadau'r cleient**

Mae'n rhaid i'r gwaith rydych chi'n ei gynhyrchu ateb disgwyliadau'r cleient. Bydd y cleient eisiau gwybod sut rydych chi wedi mynd i'r afael a'r cwestiynau canlynol.

- Beth yw eich ymateb i'r thema ac i gyfyngiadau'r briff?
- Sut rydych chi wedi defnyddio eich ymchwil cynradd ac eilaidd i ddatblygu syniadau?
- Sut gwnaethoch chi ddefnyddio iaith weledol i ddatblygu eich syniadau a'ch deilliannau?
- Sut mae eich dyluniadau yn targedu'r gynulleidfa fwriadedig?
- A yw eich dyluniadau yn addas i'w diben?
- Pa ddefnyddiau, technegau a phrosesau rydych chi wedi eu dewis a'u defnyddio?
- Sut byddwch chi'n cyflwyno eich gwaith i'r cleient?

## Celfyddydau Gweledol



Y thema ar gyfer y Celfyddydau Gweledol yw **'Perfformiad'**.

Mae traddodiad cryf i artistiaid, ffotograffwyr a gwneuthurwyr ffilmiau seilio gwaith ar y celfyddydau perfformio. Mae cerddorion, actorion a dawnswyr wedi ymddangos mewn peintiadau o'r cyfnod clasurol hyd heddiw. Nod artistiaid a dylunwyr yw dal awyrgylch ymarfer, paratoi a pherfformio byw.

Mae llawer o beintwyr, cerflunwyr, gwneuthurwyr ffilmiau, fideograffwyr a ffotograffwyr wedi gwneud hyn fel eu prif waith, gan adlewyrchu cyffro a chymeriadau'r celfyddydau perfformio. Bu Edgar Degas yn gwylio dawnswyr bale, fe wnaeth Henri de Toulouse-Lautrec greu lithograffau o ddawnsuwr ac artistiaid syrcau, a chynhyrchodd Georges Seurat waith yn seiliedig ar y syrcau. Mae Pablo Picasso, Erté, Alphonse Mucha a David Hockney oll wedi cael eu hysbrydoli gan y theatr, mae Ronnie Wood yn peintio cerddorion eraill a gwnaeth Graham Ibbeson gerflun o Eric Morecambe.

### **Beth bydd angen i chi ei gynhyrchu**

Mae canolfan celfyddydau perfformio, sydd â theatr, lleoliad cerddoriaeth ac oriel, yn gwahodd artistiaid i weithio gydag actorion, cerddorion neu ddawnsuwr i ddatblygu gwaith yn seiliedig ar beth mae'r bobl hyn yn ei wneud. Mae'n bwriadu cynnal arddangosfa o waith 2D a 3D yn oriel y ganolfan a rhoi rhai darnau yn y cyntedd ac mewn ardaloedd cyhoeddus eraill. Mae'r ganolfan celfyddydau perfformio, sef y cleient, eisiau comisiynu gwaith gennyh chi sy'n dangos dynameg perfformiad a'r camau sy'n arwain ato. Mae'r ganolfan wedi eich gwahodd i wneud ymchwil cynnar gan ddefnyddio ffynonellau cynradd ac eilaidd, i ddefnyddio eich ffotograffiaeth a'ch lluniadu, brasluniau a maquettes eich hun, ac i ddangos sut mae'r rhain oll yn arwain at eich deiliant terfynol. Os nad ydych chi'n gallu defnyddio perfformwyr go iawn, gallech ofyn i rywun esgus ei fod yn actor neu gerddor i helpu i ysgogi eich syniadau. Dangoswch sut byddai'r gwaith yn edrych pan fyddai yn ei le, i roi ymdeimlad o raddfa a lle.

Dylech ddatblygu syniadau a dyluniadau mewn ymateb i friff y cleient ar thema **'Perfformiad'**. Dylech gyfeirio at ddefnyddiau, technegau a phrosesau arbenigol ac elfennau fel: lliw, llinell, arwyneb, strwythur, patrwm, a ffurf a swyddogaeth (*function*).

Mae'r cleient eisiau i chi ddylunio a datblygu syniadau ar gyfer **un** o'r canlynol. Seiliwch eich gwaith ar **actio** neu **ddawns** neu **gerddoriaeth**.

1. Darn 2D yn seiliedig ar gerddoriaeth, actio neu ddawns. Gall hwn fod yn beintiad, print, murlun, gwaith sy'n defnyddio cyfryngau cymysg neu osodiad (*installation*). Rhaid i chi ddangos sut bydd yn edrych pan fydd yn ei le.
2. Darn 3D yn seiliedig ar gerddoriaeth, actio neu ddawns. Gall hwn fod yn ddarn o gerflunwaith, 3D, gwaith sy'n defnyddio cyfryngau cymysg neu osodiad. Rhaid i chi ddangos sut bydd yn edrych pan fydd yn ei le. Er enghraifft, sut byddai cerflun yn edrych o flaen yr adeilad.
3. Darn cyfryngau digidol, animeiddiad, ffilm fer neu dafluniad, i'w osod yn yr oriel. Rhaid i hwn fod yn seiliedig ar gerddoriaeth, actio neu ddawns.

### **Dylai eich ymchwil ganolbwyntio ar:**


- disgwyliadau'r cleient
- ffynonellau cynradd ac eilaidd mewn ymateb i thema '**Perfformiad**'
- artistiaid a dylunwyr sydd wedi defnyddio '**Perfformiad**' neu themâu tebyg fel eu hysbrydoliaeth a'u hysgogiad.

### **Disgwyliadau'r cleient**

Mae'n rhaid i'r gwaith rydych chi'n ei gynhyrchu ateb disgwyliadau'r cleient. Bydd y cleient eisiau gwybod sut rydych chi wedi mynd i'r afael a'r cwestiynau canlynol.

- Beth yw eich ymateb i'r thema ac i gyfyngiadau'r briff?
- Sut rydych chi wedi defnyddio eich ymchwil cynradd ac eilaidd i ddatblygu syniadau?
- Sut gwnaethoch chi ddefnyddio iaith weledol i ddatblygu eich syniadau a'ch deilliannau?
- Sut mae eich dyluniadau yn targedu'r gynulleidfa fwriadedig?
- A yw eich dyluniadau yn addas i'w diben?
- Pa ddefnyddiau, technegau a phrosesau rydych chi wedi eu dewis a'u defnyddio?
- Sut byddwch chi'n cyflwyno eich gwaith i'r cleient?

## Cyfathrebu Gweledol



Y thema ar gyfer Cyfathrebu Gweledol yw **'Arddull Glasurol'**.

Mae dylunwyr a gwneuthurwyr yn aml wedi cymryd eu hysbrydoliaeth o wareiddiadau (*civilisations*) Rhufeinig, Groegaidd ac Eifftaidd. Mae llawer o adeiladau o oes Fictoria yn dangos dylanwad clasurol cryf. Fe wnaeth eglwysi cadeiriol a chestyll Normanaidd ddefnyddio arddulliau Romanésg, ac roedd llawer o artistiad a cherflunwyr o gyfnod y Dadeni (*Renaissance*) yn gwneud defnydd sylweddol o arddulliau clasurol. Roedd darganfod Tutankhamun yn ystod y 1920au wedi ysbrydoli llawer o ddylunwyr a gwneuthurwyr i ddefnyddio delweddaeth ac eiconau Eifftaidd yn eu gwaith.

Mae dylunwyr yn defnyddio delweddaeth, patrymau ac elfennau gweledol clasurol heddiw, yn aml i awgrymu rhinweddau statws, hanes, gwybodaeth a ffydd (*trust*). Cewch enghreifftiau o'r arddull hon mewn borderi papur wal, ffabrig, teils, dyluniadau pecynnu, teipograffeg a logos cwmnïau.

### **Beth bydd angen i chi ei gynhyrchu**

Mae amgueddfa yn ad-drefnu'r arteffactau sydd ganddi o wareiddiadau clasurol er mwyn denu mwy o ymwelwyr, ac mae'n cynllunio cyfres newydd o orielau o dan y teitl 'Arddull Glasurol'. Mae'r Amgueddfa, sef y cleient, eisiau eich comisiynu chi i ymchwilio i'r thema, ac i ddatblygu syniadau a chynigion i gefnogi marchnata a chyhoeddusrwydd yr amgueddfa.

Mae'n rhaid i chi ddatblygu syniadau a dyluniadau mewn ymateb i friff y cleient yn seiliedig ar eich ymchwil cynradd ac eilaidd ar thema **'Arddull Glasurol'**.

Dylech ddefnyddio enghreifftiau cynradd lle bynnag y gallwch gael atyn nhw. Edrychwch ar adeiladau lleol, cynhyrchion sydd wedi'u dylunio a chasgliadau amgueddfeydd. Dylech gyfeirio at ddefnyddiau, technegau a phrosesau arbenigol ac elfennau fel: gosodiad (*layout*), teipograffeg, lliw, llinell, gwriad (*texture*), addurn, patrwm, ffurf a swyddogaeth (*function*).

Mae'r cleient eisiau i chi ddylunio a datblygu syniadau ar gyfer **un** o'r canlynol:

1. Clawr a thudalen sampl ar gyfer catalog newydd i'r oriel, o'r enw **'Arddull Glasurol'**. Rhaid i faint hwn fod yn A4 ac adlewyrchu'r thema yn llawn. Rhaid i chi ddefnyddio cyfuniad o destun a delweddau ar y clawr ac ar y dudalen sampl. Mae'r cleient yn disgwyl i'ch gwaith gael ei gyflwyno'n broffesiynol, maint A4.
2. Poster yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r orielau newydd a baner fertigol i'w defnyddio y tu mewn neu'r tu allan i'r adeilad. Rhaid i chi ddangos sut olwg fydd ar y faner pan fydd yn cael ei defnyddio.
3. Gwefan neu ap sy'n esbonio motiffau gweledol ac arddulliau un o'r gwareiddiadau clasurol.



### **Dylai eich ymchwil ganolbwyntio ar:**

- disgwyliadau'r cleient
- ffynonellau cynradd ac eilaidd mewn ymateb i thema **'Arddull Glasurol'**
- artistiaid a dylunwyr sydd wedi defnyddio **'Arddull Glasurol'** neu themâu tebyg fel eu hysbrydoliaeth a'u hysgogiad.

### **Disgwyliadau'r cleient**

Mae'n rhaid i'r gwaith rydych chi'n ei gynhyrchu ateb disgwyliadau'r cleient. Bydd y cleient eisiau gwybod sut rydych chi wedi mynd i'r afael â'r cwestiynau canlynol.

- Beth yw eich ymateb i'r thema ac i gyfyngiadau'r briff?
- Sut rydych chi wedi defnyddio eich ymchwil cynradd ac eilaidd i ddatblygu syniadau?
- Sut gwnaethoch chi ddefnyddio iaith weledol i ddatblygu eich syniadau a'ch deilliannau?
- Sut mae eich dyluniadau yn targedu'r gynulleidfa fwriadedig?
- A yw eich dyluniadau yn addas i'w diben?
- Pa ddefnyddiau, technegau a phrosesau rydych chi wedi eu dewis a'u defnyddio?
- Sut byddwch chi'n cyflwyno eich gwaith i'r cleient?

## Adnoddau

Mae'r gwefannau a'r llyfrau yn gywir adeg cyhoeddi'r papur, ond gallent newid.

## Gwefannau

<a href="http://www.actionscript.org">www.actionscript.org</a>	Adnoddau ar gyfer cyfryngau rhyngweithiol
<a href="http://www.adobe.com">www.adobe.com</a>	Meddalwedd <i>Adobe</i>
<a href="http://www.apple.com">www.apple.com</a>	Meddalwedd <i>Apple</i>
<a href="http://www.artatwasall.org.uk">www.artatwasall.org.uk</a>	<i>The New Art Gallery Walsall</i>
<a href="http://www.artchive.com">www.artchive.com</a>	Archif celf
<a href="http://www.atlasgallery.com">www.atlasgallery.com</a>	<i>Atlas Gallery</i>
<a href="http://www.bima.co.uk">www.bima.co.uk</a>	<i>British Interactive Media Association</i>
<a href="http://www.bjp-online.com">www.bjp-online.com</a>	<i>The British Journal of Photography</i> (ar gael hefyd ar ffurf cyfnodolyn)
<a href="http://www.britishmuseum.ac.uk">www.britishmuseum.ac.uk</a>	<i>The British Museum</i>
<a href="http://www.craftscouncil.org.uk">www.craftscouncil.org.uk</a>	<i>Crafts Council</i>
<a href="http://www.designmuseum.org.uk">www.designmuseum.org.uk</a>	<i>Design Museum</i>
<a href="http://www.fashionlive.com">www.fashionlive.com</a>	Gwybodaeth am dueddiadau a dylunwyr
<a href="http://www.fashion.net">www.fashion.net</a>	Gwybodaeth am ffasiwn o bob cwr o'r byd
<a href="http://www.fashiontrendsetter.com">www.fashiontrendsetter.com</a>	Rhagweld lliwiau a thueddiadau
<a href="http://www.flickr.com">www.flickr.com</a>	Rhannu delweddau ar-lein
<a href="http://www.guggenheim.org">www.guggenheim.org</a>	<i>The Guggenheim Museum</i>
<a href="http://www.hyperstudio.com">www.hyperstudio.com</a>	Offer creu ar gyfer dysgu trwy brosiect
<a href="http://www.metmuseum.org">www.metmuseum.org</a>	<i>The Metropolitan Museum of Art</i>
<a href="http://www.moma.org">www.moma.org</a>	<i>The Museum of Modern Art</i>
<a href="http://www.myshutterspace.com">www.myshutterspace.com</a>	Rhwydwaith cymdeithasol i ffotograffwyr digidol
<a href="http://www.nationalgallery.org.uk">www.nationalgallery.org.uk</a>	<i>The National Gallery</i>
<a href="http://www.national-geographic-magazine.co.uk">www.national-geographic-magazine.co.uk</a>	Cylchgrawn y <i>National Geographic</i> (mae ganddo sianel deledu hefyd)
<a href="http://www.newbritishartists.co.uk">www.newbritishartists.co.uk</a>	<i>New British Artists</i>
<a href="http://www.nma.co.uk">www.nma.co.uk</a>	<i>New Media Age</i>
<a href="http://www.nmpft.org.uk">www.nmpft.org.uk</a>	<i>National Museum of Photography, Film and Television</i>

<a href="http://www.npg.org.uk">www.npg.org.uk</a>	<i>National Portrait Gallery</i>
<a href="http://www.photography.com">www.photography.com</a>	Adnoddau i ffotograffwyr
<a href="http://www.photography.nationalgeographic.com">www.photography.nationalgeographic.com</a>	Ffotograffau cylchgrawn y <i>National Geographic</i>
<a href="http://www.photonet.org.uk">www.photonet.org.uk</a>	<i>The Photographers' Gallery</i>
<a href="http://www.popphoto.com">www.popphoto.com</a>	Gwybodaeth am artistiaid a dylunwyr tecstilau
<a href="http://www.royalacademy.org.uk">www.royalacademy.org.uk</a>	<i>Royal Academy of Arts</i>
<a href="http://www.tate.org.uk">www.tate.org.uk</a>	<i>Tate Online</i>
<a href="http://www.textilearts.net">www.textilearts.net</a>	Gwybodaeth am artistiaid a dylunwyr tecstilau
<a href="http://www.thelowry.com">www.thelowry.com</a>	<i>The Lowry Museum and Gallery</i>
<a href="http://www.vam.ac.uk">www.vam.ac.uk</a>	<i>Victoria and Albert Museum</i>
<a href="http://www.vogue.co.uk">www.vogue.co.uk</a>	Cylchgrawn <i>Vogue</i> ar-lein
<a href="http://www.webstyleguide.com">www.webstyleguide.com</a>	Adnoddau ar gyfer dylunio gwefannau

## Llyfrau

*Adobe Photoshop CS5 Classroom in a Book* (Adobe, 2010) ISBN: 9780321701763

Arato, Rona – *Design It!: The Ordinary Things We Use Every Day and the Not-So-Ordinary Ways They Came to Be* (Tundra Books, 2010) ISBN: 9780887768460

Barnard M – *Fashion as Communication* (Routledge, 2002) ISBN: 9780415260183

Berger J – *Ways of Seeing* (Penguin Books/BBC, 2008) ISBN: 9780141035796

Britt D – *Modern Art Impressionism to Post Modernism* (Thames & Hudson, 2007)  
ISBN: 9780500238417

Chapman N and Chapman J – *Digital Media Tools* 4th Revised Edition (Macavon Media, 2012) ISBN: 9780956737007

Child J – *Studio Photography: Essential Skills* (Focal Press, 2008) ISBN: 9780240520964

Clement R – *Four French Symbolists* (Greenwood Press, 1996) ISBN: 9780313297526

Collings M – *This is Modern Art* (Phoenix, 2000) ISBN: 9781841881003

Davies A, Fennessy P – *Digital Imaging for Photographers* Fourth Edition (Focal Press, 2002) ISBN: 978-240515908

De Bono E – *Serious Creativity: Using the Power of Lateral Thinking to Create New Ideas* (HarperCollins, 2005) ISBN: 9781861976741

De Olivera N, Oxley N and Milhae P – *Installation in the New Millennium* (Thames & Hudson, 2004) ISBN: 9780500284513

Eastland J – *Essential Darkroom Techniques* (Cassell, 1995) ISBN: 9780304345489

Fletcher A – *The Art of Looking Sideways* (Phaidon Press Ltd, 2001)

ISBN: 9780714834498

Freeman M – *The Photographer's Eye: Composition and Design for Better Digital Photos* (Focal Press, 2007) ISBN: 9780240809342

Galer M – *Photography Foundations for Art and Design* (Focal Press, 2007)

ISBN: 9780240520506

Hannah, Bruce – *Becoming a Product Designer: A Guide to Careers in Design* (John Wiley & Sons, 2004) ISBN: 9780471223535

Hopkins D – *After Modern Art 1945–2000* (Oxford University Press, 2000)  
ISBN: 9780192842343

Hopkins D – *Dada and Surrealism* (Oxford University Press, 2004) ISBN: 9780192802545

Hughes R – *The Shock of the New: Art and the Century of Change*, Revised Edition (Thames & Hudson Ltd, 1992) ISBN: 9780070311275

Ingledew J – *Photography (Portfolio Series)* (Laurence King, 2005) ISBN: 9781856694322

Jewitt J – *Taunton's Complete Illustrated Guide to Box Making* (Complete Illustrated Guide Series) (Taunton Press Inc, 2004) ISBN: 9781561585939

Kristian G, Schlempp-Ülker N – *Visualising Ideas* (Thames & Hudson, 2006)  
ISBN: 9780500286128

Langford M – *The Story of Photography* (Focal Press, 1998) ISBN: 9780240514833

Little S – *Isms: Understanding Art* (A&C Black Publishers Ltd, 2004) ISBN: 9780713670110

Macleod K – *Thinking Through Art: Reflections on art as research* (Routledge, 2005)  
ISBN: 9780415364782

McAlhone B and Stuart D – *A Smile in the Mind* (Phaidon, 1998) ISBN: 9780714833286

Marien-Warner M – *Photography: A Cultural History* (Laurence King, 2006)  
ISBN: 9781856694933

Peterson B – *Learning to See Creatively*, Revised Edition (Amphoto Books, 2003)  
ISBN: 9780817441814

Poli F – *Post-Modern Art 1945 – 2008* (Collins Design, 2008) ISBN: 9780061665776

Thomas J Misa – *Leonardo to the Internet: Technology and Culture from the Renaissance to the Present* (The Johns Hopkins University Press, 2011) ISBN: 9781421401546

Tilke Max – *Costume Patterns and Designs* (Zwemmer) (DS: Cyhoeddwyd y llyfr hwn yn 1956 ac mae ganddo dros 200 o blatiau lliw, wedi'u lluniadu â llaw a'u lliwio, o astudiaethau'r byw o deithiau Tilke o gwmpas y byd. Dyma'r llyfr diffiniol am wisgoedd ethnig hyd heddiw.)

Zakia R D – *Photographic Composition: A Visual Guide* (Focal Press, 2010)  
ISBN: 9780240815077